



# Cylchlythyr y Nadolig



2023-2024



# Christmas Newsletter



# Neges wrth y Pennaeth

## A message from the Headteacher

Am dymor a hanner arbennig! Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl staff, plant, rhieni a llywodraethwyr Sant Curig am eu holl waith caled yn ystod y tymor yma. Mae'r Nadolig yn amser arbennig a gobeithio cewch chi amser i ddathlu dros yr ŵyl.

Mae'r plant wedi gweithio'n hynod o galed ymhob dosbarth yn ystod y tymor ac wedi gweithio'n ddiflino i siarad yn y Gymraeg. Gwelwyd llwyth o themâu cyffrous a digwyddiadau diddorol ar draws yr ysgol - diolch i bawb am eu cyfraniad. Gallwch ddarllen mwy amdanynt yn y cylchlythyr.

Braf oedd gweld gymaint o rieni yn cefnogi themâu'r blynyddoedd a hefyd gwasanaethau dosbarth. Edrychwch allan am fwy o gyfleoedd tymor nesaf i ddod mewn a dathlu llwyddiant gyda'ch plant.

Llongyfarchiadau i'n timoedd chwaraeon a bu'n cystadlu'n frwd yn ystod y tymor. Diolch i'r staff am roi cyfleoedd arbennig i'n plant gyda phêl-droed i fechgyn a merched, a hefyd roedd yn hyfryd gweld ein tîm pêl-rwyd yn cystadlu am y tro cyntaf ers peth amser. Diolch hefyd i'r plant a oedd wedi cefnogi 'Cyfeillion Curig', i gasglu bwyd i deuluoedd sydd angen dros Nadolig, ac i gôr blwyddyn 6 am ganu mor dda lawr yn siop Asda, Barri.

Yn olaf, gobeithio y cewch chi, ein teuluoedd cefnogol, Nadolig bendigedig ac edrychwch ymlaen at eich croesawu yn ôl atom ar y 9fed o Ionawr. Mae'r staff eisoes wedi bod yn cynllunio gweithgareddau cyffrous ar gyfer tymor nesaf a braf oedd eich gweld gyda ni yn dathlu cyngherddau Nadolig Sant Curig eleni.

Nadolig Llawen i holl #DeuluCurig.



*What a wonderful term! I would like to take this opportunity to thank all staff, children, parents and governors of Sant Curig for all their hard work during this term. Christmas is a special time and I hope you have time to celebrate over the festive period.*

*The children have worked extremely hard in every class during the term, and have worked tirelessly to speak in Welsh. Lots of exciting themes and interesting events were seen across the school - thanks to everyone for their contribution. You can read more about them in the newsletter.*

*It was nice to see so many parents supporting the years' themes and also class assemblies. Look out for more opportunities next term to come in and celebrate success with your children.*

*Congratulations to our sports teams who competed enthusiastically during the term. Thank you to the staff for giving our children these opportunities with football for boys and girls, and it was also wonderful to see our netball team competing for the first time in a while. Thanks also to the children who had supported the 'Friends of Sant Curig', to collect food for families in need over Christmas, and to the year 6 choir for singing beautifully down in the Asda store, Barry.*

*Finally, I hope you, our supportive families, have a wonderful Christmas and we look forward to welcoming you back to us on the 9th of January. The staff have already been planning exciting activities for next term and it was nice to see you celebrating with us at this year's Christmas concerts.*

*Merry Christmas to all #TeuluCurig.*



# Cyngor Ysgol / School Council

Dechreuom y flwyddyn yma gan ddewis a dethol ein haelodau newydd ac am dîm gweithgar! Rydym wedi bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau pwysig megis trefnu diwrnod 'dangos y cerdyn coch i hiliaeth' a diwrnod Plant Mewn Angen. Rydym wedi dangos hyder a pharch wrth leisio'n farn i blant yr ysgol a'r gymuned, gan sicrhau bod lleisiau pawb yn cael ei chlywed. Mae rhai aelodau'r cyngor wedi ymaelodi i fod yn Llysgenhadon Ieuentid ac yn mynd i fod yn gweithio'n galed yn y flwyddyn newydd gydag ysgolion yng Nghymru a Lloegr i sbarduno sgysiau pwysig am y materion sydd yn bwysig o fewn ysgolion, megis bwlio.

Yn ddiweddar, buom ar hyfforddiant llysgenhadon gwych. Dysgom lwyth am hawliau plant ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn newydd i ddechrau rhoi pethau ar waith yn yr ysgol!

*We started the year by choosing our new members and what a hardworking team we have! We have been responsible for making important decisions already this year, such as organising what we as a school were going to do to support 'Show racism the red card' and 'Children in Need' day! We have shown respect and confidence whilst voicing our opinions and have taken everyone's opinions into consideration. Some members of the school council have signed up to be youth ambassadors for 'Votes for Schools' where they will work to lead engaging conversations, sparking important conversations around the issues that matter in schools.*

*Recently, we were lucky enough to attend the Super Ambassador training where we learnt a lot about children's rights and we look forward to implementing some new ideas across the school in the new year!*



# Dosbarth Derbynn



Rydym wedi cael tymor prysur iawn ac rydym wedi mwynhau'n fawr. Mae pawb wedi joiu dysgu pethau newydd a chwrdd â ffrindiau newydd. Rydym wedi joiu'r cyfle i chwarae'n anturus ac wedi mwynhau cael y cyfle i fwynhau'r ffrâm ddringo ar safle'r ysgol! Rydym yn hoffi dringo a rhedeg. Rydym wedi dysgu llawer o gemau newydd yn ystod ein sesiynau Iechyd a Lles! Rydym yn enwedig wedi mwynhau cael y cyfle i fynd i'r ardd wyllt i ddathlu Calan Gaeaf!

Buom yn dysgu stori newydd 'y dyn bach sinsir' ar ffurf Pie Corbett ac roedd pawb wedi llwyddo i ddysgu'r geiriau i gyd!

Rydym wedi bod yn brysur yn adnabod a ffurfio llythrennau Tric a Chlic yn ogystal ag adnabod a ffurfio rhifau i 10!

Rydym yn edrych ymlaen at dymor llawn prysurdeb a hwyl yn y flwyddyn Newydd. Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!

*We have had a busy term and have had lots of fun. Everyone has been very busy learning new things and meeting new friends. We have really enjoyed all of the explorative play opportunities that we have had – especially playing and exploring outside. We have especially enjoyed the opportunities to use the schools climbing frame! We love to climb and run. We have learnt lots of new fun games during our health and wellbeing sessions. We have enjoyed getting the opportunity to visit the wild garden during Halloween!*

*We have learnt a new story, 'the gingerbread man' by using movements and gestures to retell the story in Welsh! We have also been very busy learning our letters and numbers! We look forward to a busy term full of fun in the new year! Merry Christmas and Happy New Year to you all!*



# Blwyddyn 5



Am dymor prysur! Ein cwestiwn ar gyfer tymor y Gaeaf oedd 'Ble ddechreuodd traddodiadau'r Nadolig?' gan edrych ar yr y diwydiant Glo ac Oes Fictoria yn benodol. Ar ddechrau'r tymor, aethom am dro i weld cerflun David Davies a Dociau'r Barri. Ym mis Hydref, cawsom wythnos o hwyl yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Cafodd pawb amser gwych gan hefyd rhoi tro ar nifer o heriau newydd! Wrth astudio ein cwestiwn o'r tymor, edrychom yn fanwl ar draddodiadau'r Nadolig yng nghyfnod Oes Fictoria a'u cymharu â thraddodiadau heddiw. Cawsom hefyd gyfle i edrych ar ddathliadau Diwali a dylunio a chreu tegau trênn ar gyfer Nadolig Oes Fictoria. Yng nghanol prysurdeb y tymor, cawsom hefyd gyfle i ymarfer a pherfformio ein Sioe Nadolig – Mae Gan Curig Dalent! Am sioe fendigedig! Roedd yn ddiweddglo hyfryd i dymor prysur iawn.

*What a busy term! Our question for the Winter term was 'Where did our Christmas traditions begin?', looking at the Coal industry and the Victorian Era in particular. At the start of the term, we went for a walk to see David Davies' statue and Barry Docks. October saw our residential week in beautiful Llangrannog. Everyone had a fantastic time with opportunities to try lots of great activities and new challenges! We have recently been studying Christmas traditions in the Victorian period and compared them with today's traditions. We also had the opportunity to learn about Diwali and design and create a toy train for a Victorian Christmas. Amidst the busy Christmas period we were able to rehearse and perform our Christmas School Play – Curig's Got Talent! What a fantastic show! It was a wonderful end to a very busy term.*



# Diolch ...



Diolch i bawb a wnaeth helpu godi arian tuag at 'Plant Mewn Angen'. Fe wnaeth y plant wisgo'n felyn ar y diwrnod a chodwyd £342.63 i'r elusen.

Ar gyfer diwrnod 'Gwisgo'n goch', codwyd £284 ar gyfer yr elusen 'Show Racism the Red Card'.

Casglwyd nifer o eitemau bwyd er budd 'Banc Bwyd y Fro' a chodwyd arian i'r 'Apêl Pabi'! Diolch i bawb am eu cyfraniadau!

Fe wnaethon ni hefyd godi £486.40 gyda'n siop elusen blwyddyn 4, rhannwyd yr arian rhwng Banc Bwyd y Fro a 'The Safe Foundation'.

Mae ein tîm codi arian gwych Sant Curig wedi bod yn brysur gyda digwyddiadau fel y Ffair Nadolig a gwerthiant gwisg ysgol. Codwyd swm anhygoel o £5675.94 tuag at yr ysgol gyda'r daith gerdded noddedig Calan Gaeaf! Diolch yn fawr iawn!

*Thank you to everyone who helped raise money for 'Children in Need'. The children dressed in yellow and raised £342.63 for the charity.*

*For 'Wear Red Day' we raised £284 towards the charity 'Show Racism the Red Card'.*

*We collected many food items to give to the 'Vale Food Bank' and raised money for the 'Poppy Appeal'! Thank you to everyone for their donations!*

*We also raised £486.40 with our year 4 charity sale, the money was split between the 'Vale Food Bank' and 'The Safe Foundation'.*

*Our fantastic Sant Curig fundraising team has been busy with events such as the Christmas Fair and uniform sales. An amazing £5675.94 was raised towards the school with the sponsored Halloween walk! Diolch yn fawr iawn!*



# Pob hwyl Mr Huw!

Byddwn yn ffarwelio â Mr Huw ar ddiwedd y tymor ac fel ysgol rydym yn diolch yn fawr iawn iddo am ei holl waith caled ar hyd y blynyddoedd. Mae cannoedd o blant wedi elwa o'i gymorth a'i gefnogaeth a dymunwn yn dda iddo wrth iddo ddechrau cyfnod newydd yn ei fywyd. Diolch yn fawr iawn!

*We shall be saying goodbye to Mr Huw at the end of this term and we would like to wish him well as he starts a new chapter in his life. Mr Huw has helped and supported hundreds of pupils during his time at Sant Curig and as a school we would like to thank him for all that he has done!*



# Meithrin



Wel, dyma ni ar ddiwedd ein tymor cyntaf yn y Meithrin.

Mae pawb wedi ymgartrefi yn arbennig o dda a gwir wedi mwynhau datblygu ac ymestyn eu sgiliau ym mhob agwedd o fywyd ysgol.

Buom yn dysgu llythrennau'r wyddor, siapau 2D, rhifau, a chyfiri hyd at 5, gan ddefnyddio caneuon, dŵr, tywod, toes, paent, adnoddau naturiol a choginio i helpu. Rydym hefyd wedi creu perthnasau pwysig ac arbennig gyda'n ffrindiau newydd.

Cawson gyfle i ddysgu ac i ddathlu amrywiaeth o achlysuron pwysig iawn, megis Diwrnod Shw mae? Su' Mae? Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Dydd y Cofio, Gwrth-fwlio, Calan Gaeaf, T.Llew Jones, Guto Ffowc/Tân Gwylt, Diwali, a heb anghofio, ymweliad arbennig gan Pudsey ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Buom hefyd yn astudio stori Y Dyn Bach Sinsir.

Rydym yn brysur iawn ar hyn o bryd yn dysgu caneuon Nadoligaidd a stori'r Nadolig ac edrychwn ymlaen at dymor arall prysur yn y flwyddyn newydd. Nadolig Llawen!

*Well here we are at the end of our first term in the Nursery and what a term it has been!*

*Everyone has settled in really well and shown great enjoyment and interest in developing their skills in all aspects of school life.*

*We have been learning the letters of the alphabet, 2D shapes, numbers and counting up to 5 using songs, water, sand, playdough, paint, natural resources as well as cooking to help. We have also formed very important and special relationships with our new friends.*

*We've had the opportunity to learn and celebrate various occasions, such as Shw mae? Su' mae? Show the red card to racism, Remembrance Day, Anti-Bullying, Halloween, T.Llew Jones, Guy Fawkes/Fireworks, Diwali and not to forget a very special visit from Pudsey during Children in Need. We have also been learning about The Gingerbread Man.*

*We are currently very busy learning Christmas songs and about the story of Christmas. We look forward to another busy term in the new year. Merry Christmas!*



# Blwyddyn 1

Wel am dymor prysur a hwyl ym mlwyddyn 1!

Yn ystod yr hanner tymor cyntaf wnaethon ni ddarllen y stori 'Diwrnod Cyntaf Jac'. Rhoddodd

hwn sbardun i ni i ddod i adnabod yr ysgol ac ein hun yn well. Rydym wedi dysgu llawer am ein hunain ac ein ffrindiau. Wnaethon ni gymryd mantais o'r tywydd braf gan fynd allan yn yr awyr agored i greu corff allan o natur a mynd ar helpa drysor o gwmpas yr ysgol. Roedd dilyn map yn waith caled ond lwcus i'r plant roedd trysor o siocled yn aros iddyn nhw ar ddiwedd yr helpa. I ddathlu diwedd y thema wnaeth y plant cyflwyno eu bocsys trysor yn arbennig a chawsom barti môr-leidr llawn hwyl trwy addurno bisgedi a dylunio baner.

Ers hanner tymor rydym wedi ymgolli ein hunain yn Nadolig trwy ysgrifennu llythyr i Sion Corn, darllen straeon Nadolig, ymarfer am ein gwasanaeth Nadolig a gweithio o fewn Gweithdy Sion Corn. Wnaethom fwynhau croesawu chi mewn i ddathlu diwedd y tymor efo ni.

Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth dros y tymor diwethaf a dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!



*Well, what a busy and fun term we've had in year 1!*

*During the first half term, we read the story 'Jake's First Day'. This inspired us to get to know ourselves and our school better. We have learned a lot about ourselves and our friends. We took advantage of the lovely weather by going outside to create bodies out of nature and going on a treasure hunt around the school. It was hard work following the map, but lucky for the children, there were gold chocolate coins waiting for them at the end of the hunt. To celebrate the end of our theme, the children presented their treasure boxes excellently and we had a pirate party full of fun where we decorated biscuits and designed a flag.*

*Since half term, we have immersed ourselves in Christmas by writing a letter to Father Christmas, reading Christmas stories, practicing for our Christmas assembly and working in Father Christmas' workshop. We enjoyed welcoming you in to celebrate the end of the term with us.*

*We would like to thank you all for your support over the last term and we'd like to wish you all a Merry Christmas and a Happy New Year!*




# Cyngor Siarter Iaith Welsh Language Council

Llongyfarchiadau mawr i aelodau newydd y Cyngor Siarter Iaith eleni.

Mae'r tymor wedi bod yn un prysur wrth i ni ddathlu sawl agwedd o Gymreictod megis Dydd Owain Glyndŵr, Diwrnod Su'Mae/Shw Mae a Diwrnod T. Llew Jones.

Yn ystod y tymor mae'r plant wedi cwblhau holiadur am agweddau o'i Chymreictod. Byddwn yn rhannu'r canlyniadau gyda'r plant a rhieni yn fuan a fydd hwn yn lliwio ein cais wrth i ni fentro am Wobr Aur Siarter Iaith eleni.

Wnaethom fwynhau ddathlu diwedd y tymor gyda disco Nadoligaidd tawel eleni.



Congratulations to our new members of the council this year.

We have had a busy term celebrating several aspects of our heritage and language such as Owain Glyndwr Day, Diwrnod Su' Mae / Shw Mae and T. Llew Jones Day.

The children have also had the opportunity to complete a questionnaire concerning their use of Welsh. We will share the responses soon with the children and families as this will form part of our attempt to achieve the Gold Award with Welsh National Charter this year.

We enjoyed our silent Christmas disco to celebrate the end of term.

# Blwyddyn 6

Am dymor llawn hwyl a sbri i ni gyd ym mlwyddyn 6! Ein cwestiwn ymholi yn ystod y tymor oedd, 'Sut mae digwyddiadau hanesyddol wedi effeithio ar fy ardal leol?' Dysgom am brif ddigwyddiadau'r Ail Ryfel Byd megis y Blitz yn Abertawe, dogni bwyd, faciwis yng Nghymru a phwysigrwydd cysgodfannau Anderson. Yna dysgom am hanes Anne Frank wrth wyllo fideo addysgiadol. Defnyddiodd y disgyblion eu gwybodaeth am Anne Frank i ysgrifennu dyddiaduron eu hunain gan gynnwys y prif ddigwyddiadau a theimladau. Edrychom ar hawliau plant a sut mae'r rhain yn wahanol heddi i gymharu gyda chyfnod yr Ail Ryfel Byd. Pleser oedd teithio yn ôl mewn amser a gwisgo fel faciwis am y diwrnod i ddathlu diwedd taith y tymor! Wrth chwarae rôl, cafodd y disgyblion profiad o sut teimlodd y faciwis wrth gyrraedd pentref newydd a chael eu dewis gan deulu newydd. Ar ôl darllen eu llythyron gan eu rhieni, dathlon ni gyda pharti VE gan fwynhau gyda'n gilydd fel blwyddyn. Cawsom gyfle i fwynhau ar gwrs Preswyl yng Nglan-llyn ym mhle cafodd y disgyblion profiadau bythgofiadwy wrth ddatblygu'n ddysgwyr mentrus trwy fentro'n bwylllog a dyfalbarhau! Braf oedd gweld y disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hwylus megis padl fyrddio, y cwrs rhaffau a chanwïo. Rydym wedi ymarfer ein sioe Nadolig gyda blwyddyn 5. Gweithion ni yn galed i ddysgu geiriau, caneuon a symudiadau. Roedden ni'n edrych ymlaen yn fawr i berfformio o flaen ein rhieni.



*A term full of excitement and fun for all in year 6! Our enquiry question this term was, 'How have historical events effected our local community?'. We learnt about key events of World War Two such as the Swansea Blitz, food rationing, evacuees in Wales and the importance of Anderson shelters. Then we learnt about the history of Anne Frank whilst researching online and watching an educational video. The pupils used their knowledge of Anne Frank to write diaries of their own whilst including the main events and feelings. We looked at children's rights and how these are differ between now and during WW2. It was a pleasure going back in time as an evacuee for a day celebrating our term topic! Whilst role playing, the pupils received an experience of how the evacuees felt when they reached their new village and being chosen by a new family. After reading their letters from their parents, we celebrated with a VE day party whilst enjoying with each other, as a year.*

*We thoroughly enjoyed our time at Glan-llyn where the pupils received unforgettable experiences as they used skills that allowed them to develop into enterprising learners by taking risks calmly and persevering. It was a pleasure seeing the pupils taking part in a variety of activities such as paddleboarding, the high ropes course and canoeing.*

*Both years 5 and 6 practiced our Christmas show together. We worked hard to learn our words, songs and movements. We looked forward to performing in front of our parents.*

# Blwyddyn 3

Wel dyna beth oedd tymor prysur i ni gyd ym mlwyddyn 3.

Hoffem ddiolch i'r plant am eu hymdrechion wrth i ni gysylltu gyda thema Y Celtiaid o Oes y Cerrig. Llwyddom i ymweld a phrofi sawl Maes Profiad a Dysgu tymor megis: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu – Dysgu ac ail adrodd stori ar lafar yn arddull Pie Corbett gan gynnwys ysgrifennu rysâit. Rydym nawr yn ymwybodol o bwysigrwydd bara a sut mae creu. Llauer o waith llafar wrth ddilyn rhaglen ffoneg Saesneg Read Write Inc. Roedd cyflwyniadau 'Fy Mocs Trysor' yn arbennig iawn a diolchwn i chi am eich ymdrechion.

Fe wnaeth pawb fwynhau ymweliad i Amgueddfa Sain Ffagan wrth daro heibio Bryn Eryr a dysgu mwy am fywyd cartref y Celtiaid. Rydym hefyd wedi dysgu rhai o brofiadau bywyd Y Celtiaid drwy gymharu bwydydd, dillad ac arfau.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg – profiadau gwych wrth i ni ymholi a chynllunio arfbeisiau Celtaidd a chreu Tŷ Celtaidd Crwn syml yn defnyddio defnyddiau syml. Llauer o waith ymarferol gyda Miss Richards wrth i ni fynd ati i fesur meintiau a chyfrifo cynhwysedd.

Amser nawr i edrych ymlaen at 'hoi' fach a dathlu dros y Nadolig a dychwelyd yn barod at dymor llawn hwyl, prysurdeb a chyffro yn y flwyddyn newydd.

Dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i holl deuluoedd Blwyddyn 3.

*Well, what a busy first term we've all had in Year 3.*

*First, we wish to thank all the children for their efforts this term as we enjoyed exploring the theme of work, 'The Celts and the Stone Age'. We had the opportunity to examine several Areas of Learning such as:*

*Languages, Literacy and Communication – We listened, read and exercised a famous story verbally using Pie Corbett strategies which then allowed us to write our own version of the story. This gave us the opportunity to learn how to understand simple instructions using recipes. We now know how bread is produced. We have also benefitted from the Phonic Read Write Inc scheme.*

*Our 'Treasure Box' presentations was a great way for the children to use their oracy skills.*

*Science and Technology was a strong presence as we experienced designing a Celtic round house using simple materials and opportunity to consider how Celtic Shields were designed.*

*We were all pleased to use our practical skills in Numeracy when measuring lengths or capacity in our sessions with Miss Richards. Everyone enjoyed our visit to St Fagans National Museum of History which allowed us to experience how the Celts lived their daily lives within the round house. Time now to look forward and relax over the Christmas break and return ready for another fun filled, exciting and busy term in the New Year.*

*We wish all the families of Year 3 a Happy Christmas and a Fab New Year.*





# Sêr y Tymor



## CYMREICTOD

*Derbyn - Archer MJ ac Eleri SH*

*1 - Autumn-Rose B a Rudy P*

*2 - Lili-Rose B a Mia R*

*3 - Oliver M a Harry P*

*4 - Dylan L a Scarlett-Rose P*

*5 - Olivia V a Sophie Mc*

*6 - Penelope W a Harry T*



## YMDRECH

*Derbyn - Imogen S, Frankie M a Grace L*

*1 - Ffion P ac Adara Y*

*2 - Rula S ac Alba-Rose C*

*3 - Serenity R ac Elliott W*

*4 - Marcie-Mai M a Philippa W*

*5 - Rose C a Ruby C*

*6 - Delyth S ac Isobel G*

## CYFEILLGARWCH

*Derbyn - Imogen E, Evangeline W ac Elias H*

*1 - Reuben D a Lola D*

*2 - Pixie S a Finn J*

*3 - Brooke T a Luca P*

*4 - Henry H a Rhys R*

*5 - Eli B a Manon-Mai M*

*6 - George Mc ac Oliver P*



# Blwyddyn 2

Rydym ni wedi setlo'n arbennig ym Mlwyddyn 2. Ein thema y tymor hwn oedd 'Gyda phwy ydw i'n rhannu fy mynd?' Fe wnaethon ni ddathlu'r ffaith bod pawb yn wahanol a dyma sy'n gwneud y byd mor arbennig. Dechreuwyd y tymor gan ddarllen stori 'Rydym ni'n wahanol', cyn symud ymlaen i edrych ar draddodiadau gwledydd amrywiol. Fe wnaethon ni fwynhau blasu bara o wledydd amrywiol yn fawr iawn!

Ar ôl hanner tymor, dysgom am wyl Diwali trwy ddarllen stori 'Diwali Dipal' a dysgu am hanes Rama a Sita. Yr uchafbwynt o hyn oedd dysgu am drydan a cheisio goleuo ein llusernau Diwal wrth greu cylched drydan.

Rydym ni wedi bod yn ymarfer ein sgiliau mathemateg llawer hefyd. Dyma ni'n mesur deunyddiau naturiol ac yn ymarfer deall gwerth rhif:


Tuag at ddiwedd y tymor rydym wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer ein gwasanaeth Nadolig. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod y plant wedi perfformio'n arbennig ac wedi mwynhau'r profiad. Rydym yn ddiolchgar iawn i chi fel rhieni a theuluoedd am eich cefnogaeth a gobeithiwn y cewch chi Nadolig wrth eich bodd. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y Flwyddyn Newydd.

*We have settled very well in Year 2. Our theme this term was 'With who do I share my world?' We celebrated the fact that everyone is different, and this is what makes the world so special. The term began by reading the story 'Rydym Ni'n Wahanol', before moving on to look at the traditions of countries around the world. We really enjoyed tasting bread from various countries!*

*After half term, we learned about the festival of Diwali by reading the story of 'Diwali Dipal' and learning about the history of Rama and Sita. The highlight of this was learning about electricity and trying to light our Diwali lanterns by creating an electric circuit.*

*We've been practicing our maths skills a lot too. Here we are measuring natural materials and understanding place value:*


*Towards the end of the term we have been very busy preparing for our Christmas concert. I am sure you would agree that the children performed exceptionally well and enjoyed the experience. We are very grateful to you as parents and families for your support and we hope you have a wonderful Christmas. We look forward to seeing you in the New Year.*



# Blwyddyn 4

Mae Blwyddyn 4 wir wedi gwneud gwahaniaeth mawr dymor yma gyda'n thema, "Pwy sydd wedi dylanwadu arna i, a sut gallaf ddylanwadu ar eraill". Rydym wedi mwynhau dysgu am elusennau gwahanol a'u gwaith arbennig. Braf oedd gwahodd Ms Hannah Fitt i'r ysgol i sôn am ei gwaith gyda'i elusen ryngwladol, The Safe Foundation. Uchafbwynt y tymor i ni oedd cynnal ein Siop Elusen i'r ysgol gyfan le oedd cyfle gan ddsbarthiadau i wario arian ar bob math o drugareddau. Llwyddom i godi yn agos at £500 i'r Safe Foundation a Banc Bwyd y Bari- anhygoel!

Wnaethom fwynhau perfformio ein sioe Nadolig, Strictly Come Bethlehem, i chi hefyd. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb ym Mlwyddyn 4.



*Year 4 have certainly made a big difference this term with our theme, "Who has influenced us and how can we influence other people positively?". We have enjoyed learning about different charities and their important work. It was a pleasure to welcome Ms Hannah Fitt to the school to talk about her work with her international charity, The Safe Foundation. The highlight of the term for us was holding our Charity Shop for the whole school where classes had the opportunity to spend money on all kinds of charities. We managed to raise close to £500 for The Safe Foundation and the Barry Food Bank - amazing!*

*We thoroughly enjoyed performing our Christmas show, Strictly Come Bethlehem, for you too. Merry Christmas and Happy New Year from everyone in Year 4.*





# Dyddiadau Dates



**\*Diwrnodau HMS - 08/01/24, 19/02/24, 03/06/24, 22/07/24**

Gŵyl y Banc - Dydd Llun 06/05/23

**Diwrnod cyntaf nol i blant yw Dydd Mawrth y 9fed o Ionawr.**

**\*INSET Day's - 08/01/24, 19/02/24, 03/06/24, 22/07/24**

*Bank Holiday - Monday 06/05/23*

***First day back for children is Tuesday the 9th of January.***

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd	Nifer o ddyddiau ysgol
		Dechrau	Diwedd		
Gwanwyn 2024	*Dydd Llun 8 <sup>fed</sup> Ionawr	Dydd Llun 12 <sup>fed</sup> Chwefror	Dydd Gwener 16 <sup>eg</sup> Chwefror	Dydd Gwener 22 <sup>ain</sup> Mawrth	50
Haf 2024	Dydd Llun 8 <sup>fed</sup> Ebrill	Dydd Llun 27 <sup>ain</sup> Mai	Dydd Gwener 31 <sup>ain</sup> Mai	*Dydd Llun 22 <sup>ain</sup> Gorffennaf	70

Term	Begin	Half Term		End	No. of school days
		Begin	End		
Spring 2024	*Monday 8 <sup>th</sup> January	Monday 12 <sup>th</sup> February	Friday 16 <sup>th</sup> February	Friday 22 <sup>nd</sup> March	50
Summer 2024	Monday 8 <sup>th</sup> April	Monday 27 <sup>th</sup> May	Friday 31 <sup>st</sup> May	*Monday 22 <sup>th</sup> July	70